# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## Cofnodion (CWLS(2) 10-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 28 Mehefin 2006
### Amser y cyfarfod: 9:00am – 12:40pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Rosemary Butler (Cadeirydd) | Gorllewin Casnewydd |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Laura Anne Jones | Dwyrain De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Alun Pugh (Gweinidog) | Gorllewin Clwyd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Margaret Evans | Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |
| Gwilym Evans | Cyfarwyddwr Dros Dro y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |

#### Eraill yn Bresennol

| Enw | Yn cynrychioli | Eitem(au) |
|---|---|---|
| Cledwyn Ashford, Dewiswr Chwaraewyr dan 16 oed | Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| David Nickless, Ysgrifennydd Chwaraewyr dan 16 oed | Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru | 3 |
| Keith James, Is-Gadeirydd Chwaraewyr dan 16 oed | Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru | 3 |
| Neil Ward, Rheolwr Cyffredinol | Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru | 3 |
| Jamie Clewer, Swyddog Ieuenctid ac Anableddau | Ymddiriedolaeth Elusennol Cymdeithas Bêl-droed Cymru | 3 |
| Debbie Wise, Cydgysylltydd Pêl-droed i Ferched | Ymddiriedolaeth Elusennol Cymdeithas Bêl-droed Cymru | 3 |
| Peter Hosking, Uwch Swyddog Polisi | Comisiynydd Plant Cymru | 3 |
| Gareth Jones, Swyddog Polisi | Comisiynydd Plant Cymru | 3 |
| Peter Tyndall, Prif Weithredwr | Cyngor Celfyddydau Cymru | 4 |
| Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol | Amgueddfa Cymru | 4 |
| David Alston, Cyfarwyddwr y Celfyddydau | Cyngor Celfyddydau Cymru | 4 |
| Mike Tooby, Cyfarwyddwr | Amgueddfa Cymru | 4 |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Julia Annand | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Karl Gomila | Swyddog Cymorth y Pwyllgor |

## Yr Is-adran Gyfreithiol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| O Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

## Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Neil Cox | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau na datganiadau buddiant.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Papur: CWLS2 08-06 (min)

2.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion byr y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2006.

## Eitem 3: Adolygiad o Bêl-droed yng Nghymru: Sesiwn Dystiolaeth

Papurau: CWLS2 10-06 (p1, p2, p 3, p4 a p 5)

3.1 Cafwyd cyflwyniadau gan gynrychiolwyr o Gymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru, Ymddiriedolaeth Elusennol Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

### Camau i'w cymryd

- Nid oedd yn bosibl i Rob Lewis, Cynghrair Pêl-droed Merched De Cymru, Ymddiriedolaeth Elusennol Cymdeithas Bêl-droed Cymru, fod yn bresennol ond dywedodd y byddai'n darparu tystiolaeth lafar maes o law;
- Bydd Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion De Cymru yn darparu gwybodaeth am eu gweledigaeth o ran sut y gellir gwella'r strwythur presennol;
- Bydd Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion De Cymru yn darparu ffigurau ar gostau rhedeg amrywiol y Gymdeithas;
- Cytunodd Debbie Wise, Cydgysylltydd Pêl-droed i Ferched, Ymddiriedolaeth Elusennol Cymdeithas Bêl-droed Cymru, i esbonio'r rheolau anghyson sy'n bodoli mewn Pêl-droed i Ferched ar hyn o bryd.

## Eitem 4: Adroddiad ar Arddangos Celf yng Nghymru

Papur: CWLS(2) 10-06 (p6)

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog adroddiad ar y mater hwn a gwnaed cyflwyniad ar y cyd gan Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru a Peter Tyndall, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru.

### Cam i'w gymryd

Nododd y Pwyllgor y bydd rhagor o waith ar y cynigion ar gael yn ystod y 12 i 18 mis nesaf yn ei Adroddiad Etifeddiaeth ar gyfer 2007.

### Eitem 5: Blaenoriaethau Cyllidebol

Papur: CWLS(2) 10-06 (p7)

5.1 Trafododd y Pwyllgor y blaenoriaethau o ran y gyllideb arfaethedig.

### Camau i'w cymryd

Awgrymwyd y dylid rhoi rhagor o gyllid i'r meysydd canlynol:

- awdurdodau lleol o ran cyfleusterau chwaraeon;
- llyfrgelloedd ac amgueddfeydd lleol;
- Y Theatr Saesneg;
- Y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd;
- Y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth;
- Cyllideb diwylliant ar gyfer Gwyliau;
- Mynediad i gyfleusterau trafnidiaeth i alluogi'r cyhoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ym maes chwaraeon a'r celfyddydau.

### Eitem 6: Teledu Heb Ffiniau

Papur: CWLS(2) 10-06 (p8)

6.1 Nododd y Pwyllgor yr ymgynghoriad gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y diwygiadau i Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd" Teledu Heb Ffiniau".

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Mehefin 2006**